# YR HER

Dychmyga dy fod yn fachgen ysgol, ail blentyn glöwr Philip a'i wraig Alice, yn byw mewn bwthyn glöwr yn Ne Cymru. Mae dy frawd Philip ddwy flynedd yn hyn na thi, ac wrth i amser fynd heibio, byddi di'n croesawu deuddeg brawd a chwaer arall.

Teulu hapus ydy hwn, â thy yn llawn o gariad a hwyl, er gwaethaf y bywyd caled a'r peryglon cyson yn y pyllau glo. Mae teuluoedd y glowyr yn parchu, yn ymddiried ac yn helpu ei gilydd. Dyma fachgen hapus, teulu hapus, a chymdeithas hapus a diogel.



Rwyt ti'n caru chwarae pêl-droed gyda dy gyfeillion; rwyt ti'n caru'r mynydd tu ôl i res y tai lle rwyt ti'n byw; rwyt ti'n hoffi'r ysgol, achos rwyt ti'n gwneud yn dda yn y gwersi. Ac rwyt ti'n gwybod sut i ddefnyddio dy ddyrnau i gadw dy le ymhlith y bechgyn eraill. Dyna sut mae bywyd bachgen mewn cymuned lofaol.

Canolfan bywyd ysbrydol a chymdeithasol ydy'r capel Wesleaidd, ac mae dy dad yn pregethu yn y capeli ar Ddydd Sul yn y pentrefi a'r trefi cyfagos, ond fyddi di dy hun ddim yn dod i ffydd hyd nes y byddi di'n bedair ar bymtheg oed.



Pan rwyt ti’n ddeuddeng mlwydd oed, dyma ti’n ennill lle yn yr ysgol ramadeg yn y dref fawr gyfagos; dim ond un bachgen arall sy'n cyflawni hyn. Ond dydy dy dad ddim yn gyfoethog; does dim digon o arian i’th anfon di i’r ysgol fawr: mae'r teulu angen i ti weithio. Felly rwyt ti’n mynd i weithio mewn ffowndri, efallai oherwydd gof ydy dy daid, dyn sy’n ymddangos yn hen iawn a anwyd yn y flwyddyn 1842**:** erbyn hyn mae hi’n 1915. Cam allan o fachgendod i fod yn ddyn ydy hwn, ac rwyt ti’n gweithio yno am ddwy flynedd.



Ond pan rwyt ti'n 14 oed daw'r amser i ymuno â'r dynion, gan fynd i lawr yn y pwll glo. Mae'r dydd yn gwawrio – dy ddydd cyntaf o dan y ddaear – ac mae ofn arnat. Rwyt ti'n cerdded gyda dy dad i'r pwll, ac yn mynd efo fo i mewn i'r caets: mae'n dywyll, mae'r pwll yn ddwfn, mae popeth yn anghyfarwydd ac yn frawychus, mae'r caets ar gau.

Yna, yn y tywyllwch a'r ofn, rwyt ti'n teimlo llaw dy dad yn gorchuddio dy law, ac rwyt ti'n dechrau teimlo'n dawel, yn ddiogel, yn heddychlon. Rŵan galli di wynebu'r her o ddod yn ddyn, yn Gymro gwir. Wedyn nid fyddi di byth yn anghofio'r foment honno - cariad, agosatrwydd, ac amddiffyniad dy dad.

Fwy na chan mlynedd yn ddiweddarach bydd dy fab yn dweud yr hanes i gynulleidfa mewn capel yn Rhosllanerchrugog. Bydd o'n dyfynnu geiriau Iesu am Dduw, Tad y rhai sy'n credu yn Iesu: "Yr wyf fi'n rhoi bywyd tragwyddol iddynt, ac ni chaiff neb eu cipio hwy allan o'm llaw. Hwy yw rhodd fy Nhad i mi, ac ni all neb eu cipio allan o law fy Nhad."



er cof serchog

Dinsdale Thomas Young
1903-1997